1.40

Duw Gadwo'r Frenhines.

(GOD SAVE THE QUEEN.)

A Gyfansoddwyd gan y diweddar Mr. Rees Lewis (Ap Tydfil), Argraffydd, Merthyr Tydfil,

Yn mlwyddyn Coroniad y Frenhines, sef 1838.

DUW! cadw ar bob awr
Frenhines Prydain Fawr,
Mewn hawddaf hynt:
Cylchyna'i gorsedd fry
A'th ofal tadol, fu
Yn dwr a chadarn dy
I'w thadau gynt.

Blodeued tangnef gwir
A chariad yn y tir
Fel llysiau gardd:
Rhag gloes gelynion gwlad,
Mewn heddwch a mwynhad,
Amddiffyn di, O Dad!
Victoria hardd.

Aed gwirioneddau lôr
Ar led o fôr i fôr,
Yn nyddiau hon:
Udganer yn ei hoes
Am Grist ac lawn ei Groes,
Ei lef a'i ingawl loes,
Drwy'r ddaear gron.

J. P. LEWIS, ARGRAFFYDD, MERTHYR.